Cyllid & Thollau EM

# Gwiriwch eich hysbysiad o ddyfarniad credydau treth nawr

Defnyddiwch y rhestr wirio hon a'r nodiadau hyn i wneud yn siŵr:

- bod y manylion ar eich hysbysiad o ddyfarniad yn gywir
- eich bod yn cael yr arian y mae gennych hawl iddo
- eich bod yn gwybod pa newidiadau y bydd angen i chi roi gwybod i ni amdanynt yn y dyfodol

I roi gwybod am newidiadau, ewch i www.gov.uk/rheoli-eich-credydau-treth

Gellir codi cosb hyd at £300 arnoch os na rowch wybod am unrhyw newidiadau cyn pen un mis, a chosb hyd at £3,000 os rhowch wybodaeth anghywir.

I ddeall sut i reoli'ch credydau treth er mwyn cael yr arian y mae gennych hawl iddo, gwyliwch ein fideo YouTube byr – ewch i www.gov.uk/tax-credits-webinars-videos

| **A yw'r manylion canlynol yn gywir ar eich hysbysiad o ddyfarniad ar eich cyfer chi a'ch partner (os oes gennych un)?** | **Iawn** | **Na** |
|---|---|---|
| Eich enw a'ch cyfeiriad | ☐ | ☐ |
| **Manylion personol** | | |
| P'un a ydych yn hawlio fel person sengl neu fel cwpl (mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni os yw hyn wedi newid) | ☐ | ☐ |
| Yr oriau rydych yn gweithio yr wythnos – rhowch wybod i ni os yw'ch oriau wedi newid, mae rhagor o wybodaeth ar dudalen 2 | ☐ | ☐ |
| P'un a ydych yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn ymwneud ag incwm, neu Gredyd Pensiwn | ☐ | ☐ |
| P'un a ydych yn gymwys i gael yr elfen anabledd | ☐ | ☐ |
| P'un a ydych yn gymwys i gael yr elfen anabledd difrifol | ☐ | ☐ |

## Plant a phobl ifanc cymwys

Erbyn hyn, ni allwch gael elfen plentyn y Credyd Treth Plant ar gyfer trydydd plentyn nac unrhyw blant pellach a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017, oni bai bod un o'r eithriadau yn berthnasol – i gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/guidance/child-tax-credit-exceptions-to-the-2-child-limit.cy

Bydd elfen anabledd y Credyd Treth Plant ac elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith yn cael eu talu ar gyfer pob plentyn cymwys, hyd yn oed os na fyddwn yn talu'r elfen plentyn unigol ar gyfer y plentyn hwnnw.

Dylech roi gwybod am enedigaeth plentyn ac am unrhyw newidiadau sy'n ymwneud â'ch plant neu bobl ifanc bob tro, oherwydd efallai y gallwch gael mwy o arian.

| **A yw manylion eich plant a'ch pobl ifanc cymwys yn gywir ar eich hysbysiad o ddyfarniad?** | **Iawn** | **Na** |
|---|---|---|
| Nifer y plant 16 oed ac iau | ☐ | ☐ |
| Nifer y bobl ifanc rhwng 16 ac 20 sydd mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy (rhaid i chi roi gwybod i ni os yw hyn wedi newid – mae rhagor o wybodaeth ar dudalen 2) | ☐ | ☐ |
| Nifer y plant yr ydych yn cael yr elfen anabledd ar eu cyfer | ☐ | ☐ |
| Nifer y plant yr ydych yn cael yr elfen anabledd difrifol ar eu cyfer | ☐ | ☐ |
| **Costau gofal plant** | | |
| Nifer y plant sy'n cael eu gwarchod gan ddarparwr gofal plant cofrestredig neu gymeradwy | ☐ | ☐ |
| Eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog (rhaid i chi roi gwybod i ni os yw'r rhain wedi newid – mae rhagor o wybodaeth ar dudalen 2) | ☐ | ☐ |

| **A yw manylion eich incwm yn gywir?** | **Iawn** | **Na** |
|---|---|---|
| Mae cyfanswm eich incwm ar gyfer pob un o'r blynyddoedd treth a ddangosir yn gywir (os yw'ch incwm yn newid, mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni ar unwaith er mwyn i ni allu sicrhau y telir y swm cywir o gredydau treth i chi – mae rhagor o wybodaeth ar dudalen 2) | ☐ | ☐ |

Os ydych yn llenwi Ffurflen Dreth Hunanasesiad a'ch bod wedi rhoi gwybod i ni beth yw'ch incwm amcangyfrifedig, rhowch wybod i ni beth yw'ch incwm gwirioneddol cyn gynted ag y byddwch yn ei wybod.

| **A yw'ch manylion talu yn gywir?** | **Iawn** | **Na** |
|---|---|---|
| A yw'r manylion cywir ar gyfer y cyfrif wedi'u dangos? | ☐ | ☐ |
| A yw'r taliadau a gawsoch gennym yn cyfateb i'r taliadau a ddangosir ar eich hysbysiad o ddyfarniad? | ☐ | ☐ |

### A wnaethoch ateb Iawn i bob un o'r cwestiynau?

Os yw'r holl fanylion yn gywir, does dim angen i chi wneud dim byd arall. Byddwn yn parhau i dalu'r symiau a ddangosir yn Rhan 3 'Taliadau' o'ch hysbysiad o ddyfarniad, oni bai bod rhywbeth yn newid.

Cadwch eich hysbysiad o ddyfarniad yn ddiogel gan ei fod yn rhoi gwybod i chi faint o gredydau treth y byddwch yn eu cael.

### A wnaethoch ateb Na i unrhyw un o'r cwestiynau?

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith os oes unrhyw rai o'r manylion ar eich hysbysiad o ddyfarniad yn anghywir, ar goll, yn anghyflawn neu wedi newid. Mae'n bosibl y gallech fod yn cael mwy o gredydau treth nag y mae gennych hawl iddynt, y byddwn yn gofyn i chi eu had-dalu. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch 'Os ydych o'r farn bod ein penderfyniad yn anghywir' ar dudalen 2.

## Os ydych o'r farn bod ein penderfyniad yn anghywir

Gallwch ysgrifennu atom neu fynd ar-lein i ofyn i ni ailystyried y penderfyniad. Gelwir hyn yn ailystyriaeth orfodol. Fel arfer, mae gennych 30 diwrnod o ddyddiad eich hysbysiad o ddyfarniad i wneud hyn. Os oes gennych reswm da, efallai y gallwn roi rhagor o amser i chi. Pan fyddwn wedi ailystyried y penderfyniad, byddwn yn anfon hysbysiad atoch gan egluro'r hyn yr ydym wedi'i wneud. Os ydych yn dal i fod yn anfodlon, gallwch apelio ar dribiwnlys.

Yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, gallwch hefyd apelio'n uniongyrchol ar dribiwnlys annibynnol heb ailystyriaeth orfodol. Os ydych yng Ngogledd Iwerddon, efallai y gallwch apelio'n uniongyrchol. Chwiliwch am 'tax credits appeals' ar GOV.UK.

## Os yw'ch taliadau wedi gostwng neu wedi dod i ben yn sgil gordaliad neu newid yn eich amgylchiadau

Efallai y byddwn wedi addasu'ch taliadau i gasglu'r gordaliad o'r flwyddyn bresennol, o flynyddoedd blaenorol neu o hawliad arall. Gallwch gysylltu â ni:

- os nad ydych yn deall pam mae'ch taliadau wedi gostwng neu stopio
- os yw'ch taliadau wedi gostwng neu stopio, ac nid ydych bellach yn gallu talu costau byw hanfodol fel rhent, nwy neu drydan
- os nad ydych o'r farn y dylech ad-dalu gordaliad

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwilio am WTC8 a COP26, 'Credydau treth: beth sy'n digwydd os talwyd gormod i chi'.

## Newidiadau y mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni amdanynt

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni am y newidiadau canlynol cyn pen mis o'r dyddiad y digwyddodd y newid.

### Hawliadau sengl ac ar y cyd

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni os gwnaethoch hawlio:

- fel person sengl, ond rydych bellach wedi priodi, mewn partneriaeth sifil, neu'n byw gyda phartner fel pe baech yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- ar y cyd gyda'ch partner, ond rydych wedi gwahanu'n barhaol neu mae'ch partner wedi marw

I gael rhagor o wybodaeth,
ewch i www.gov.uk/claim-tax-credits/joint-claims

### Gadael y DU

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni os ydych chi neu'ch partner (os oes gennych un):

- yn gadael y DU yn barhaol
- yn mynd dramor am fwy nag 8 wythnos, neu fwy na 12 wythnos os ydych yn mynd dramor oherwydd eich bod yn sâl, neu oherwydd bod aelod o'ch teulu'n sâl neu wedi marw
- yn colli'r hawl i breswylio yn y DU

I gael rhagor o wybodaeth am yr 'hawl i breswylio',
ewch i www.gov.uk/right-to-reside

### Oriau gwaith

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni os ydych chi neu'ch partner (os oes gennych un):

- yn dechrau gweithio, naill ai mewn cyflogaeth neu hunangyflogaeth
- yn stopio gweithio ac yn peidio â dechrau swydd newydd o fewn 7 diwrnod
- yn colli'ch swydd
- yn newid eich oriau gwaith arferol fel eich bod yn gweithio llai nag 16 awr yr wythnos, 24 awr yr wythnos, neu 30 awr yr wythnos (ar gyfer cyplau â phlant, mae'n rhaid i un ohonoch fod yn gweithio o leiaf 16 awr - mae angen i chi adio'ch oriau gwaith at ei gilydd er mwyn i chi benderfynu a ydych yn gweithio llai na 24 neu 30 awr)
- wedi bod ar streic am fwy na 10 diwrnod yn olynol
- yn gwpl sy'n gyfrifol am blentyn, a'ch bod yn gweithio o leiaf 16 awr ond nid yw'ch partner erbyn hyn yn analluog, yn glaf mewnol yn yr ysbyty, yn y carchar neu'r ddalfa yn aros am achos llys neu ddedfryd, nac â hawl i Lwfans Gofalwr neu Daliad Cymorth Gofalwr (os ydych yn byw yn yr Alban, peidiwch â chynnwys yr Atodiad i Lwfans Gofalwr)

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwilio am WTC2.

### Cyplau sydd ill dau yn gweithio 16 awr neu fwy yr wythnos

Dim ond i un ohonoch y gallwn dalu Credyd Treth Gwaith, felly bydd angen i chi roi gwybod i ni pwy y dylem ei dalu. Gallai un ohonoch fod â hawl i gredydau Yswiriant Gwladol, felly dewiswch y person hwnnw i sicrhau ei fod yn cael unrhyw gredydau Yswiriant Gwladol y gallai fod ganddo hawl iddynt.

I gael rhagor o wybodaeth,
ewch i www.gov.uk/credydau-yswiriant-gwladol

### Plant a phobl ifanc

Hyd yn oed os nad ydych yn cael yr elfen plentyn ar gyfer plentyn neu berson ifanc, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni os bydd:

- yn symud allan i fyw gyda rhywun arall
- yn dechrau hawlio Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, neu Gredyd Cynhwysol ei hun
- yn marw

Rhaid i chi hefyd roi gwybod i ni os bydd person ifanc rhwng 16 ac 20 oed:

- yn gadael addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy
- yn lleihau ei bresenoldeb ar gwrs addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch i 12 awr neu lai yr wythnos ar gyfartaledd yn ystod tymor yr ysgol
- yn dechrau addysg uwch, er enghraifft cwrs gradd
- yn dechrau cael hyfforddiant a ddarperir drwy gytundeb cyflogaeth
- yn dechrau gweithio am gyflog am 24 awr neu fwy yr wythnos, ac nid yw'n cael addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch

I gael rhagor o wybodaeth,
ewch i www.gov.uk/child-tax-credit-when-child-reaches-16

### Costau gofal plant

Hyd yn oed os nad ydych yn cael yr elfen plentyn ar gyfer plentyn neu berson ifanc, mae'n dal i fod yn rhaid i chi roi gwybod i ni os yw'r canlynol yn gymwys:

- mae'ch costau gofal plant yn dod i ben neu mae'ch costau gofal plant wythnosol cyfartalog yn gostwng £10 neu fwy
- nid ydych yn defnyddio darparwr cofrestredig neu gymeradwy mwyach
- rydych yn dechrau defnyddio perthynas i ofalu am eich plentyn gartref
- rydych yn dechrau cael help gyda'ch costau gofal plant drwy'ch cyflogwr, megis talebau gofal plant neu unrhyw gynllun aberthu cyflog arall
- mae'ch plentyn yn rhoi'r gorau i fynychu gofal plant am 4 wythnos neu fwy pan fyddai fel arfer wedi mynd

I gael rhagor o wybodaeth am y newidiadau i ofal plant,
ewch i GOV.UK a chwilio am WTC5.

## Newidiadau eraill y dylech roi gwybod i ni amdanynt

Byddai'n werth i chi roi gwybod i ni am y newidiadau canlynol cyn pen mis oherwydd y gallent arwain at gynnydd yn swm y credydau treth sy'n ddyledus i chi, neu efallai y byddwn yn talu gormod i chi.
Rhowch wybod i ni os yw'r canlynol yn gymwys:

- mae'ch costau gofal plant wythnosol cyfartalog yn cynyddu £10 neu fwy
- rydych yn dod yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc arall
- rydych chi, eich partner, neu blentyn neu berson ifanc cymwys rydych yn gyfrifol amdano yn dechrau cael budd-dal cymwys sy'n gysylltiedig ag anabledd sy'n eich galluogi i hawlio'r elfen anabledd neu'r elfen anabledd difrifol o gredydau treth
- mae'ch oriau gwaith arferol yn newid o fod yn llai nag 16 awr yr wythnos i fod yn 16 awr neu fwy
- mae'ch oriau gwaith arferol yn newid o fod yn llai na 30 awr yr wythnos i fod yn 30 awr neu fwy; ar gyfer cyplau â phlant, eich oriau gwaith ar y cyd sy'n cyfrif at y 30 awr
- rydych yn gwpl â phlant, ac mae'ch oriau gwaith ar y cyd yn cynyddu i 24 awr neu fwy yr wythnos
- mae person ifanc 16, 18 neu 19 oed yn parhau mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch, yn ymuno â chynllun hyfforddiant cymeradwy neu'n cofrestru â'r gwasanaeth gyrfaoedd, Connexions, gwasanaeth cymorth awdurdod lleol neu sefydliad tebyg yn yr UE - os nad ydych yn rhoi gwybod i ni ei fod yn parhau mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy, bydd ei Gredyd Treth Plant yn dod i ben ar 1 Medi
- mae'ch incwm yn cynyddu neu'n gostwng llai na £2,500 - bydd hyn yn effeithio ar faint y gallwn ei dalu i chi'r flwyddyn nesaf
- mae'ch incwm yn cynyddu neu'n gostwng mwy na £2,500 - efallai y bydd hyn yn effeithio ar eich taliadau credydau treth presennol, a bydd yn effeithio ar faint y byddwn yn ei dalu i chi'r flwyddyn nesaf

Os byddwn yn talu gormod i chi gan eich bod yn oedi cyn rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau, byddwn yn gofyn i chi ad-dalu unrhyw gredydau treth a ordalwyd.